COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 29 TACHWEDD 2017, AM 3.00 PM

Presennol

Y Cynghorydd PA Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | DK Edwards | J Gebbie |
| T Giffard | RM Granville | CA Green | DG Howells |
| A Hussain | RM James | B Jones | M Jones |
| DRW Lewis | JE Lewis | JR McCarthy | DG Owen |
| Cyng | RL Penhale-Thomas | JC Radcliffe | KL Rowlands |
| B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith | SG Smith |
| JC Spanswick | RME Stirman | G Thomas | T Thomas |
| JH Tildesley MBE | E Venables | SR Vidal | MC Voisey |
| LM Walters | KJ Watts | CA Webster | DBF White |
| PJ White | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| JE Williams | RE Young | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

SK Dendy, MJ Kearn a/ac AA Pucella

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro) |
| Randal Hemingway | Pennaeth Cyllid |
| Andrew Jolley | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethiol |
| Gary Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Helen Picton | Service Manager Trading Standards |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |

85. MUNUD O DAWELWCH

Soniodd y Gweinidog â thristwch am farwolaeth ddiweddar Mr Carl Sargeant, yr Aelod Cynulliad, a gofynnodd i'r Aelodau gymryd rhan mewn munud o dawelwch.

Cododd pawb ar eu traed mewn teyrnged.

86. DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y Buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd JC Spanswick – eitem Agenda 15 - Hysbysiad o Gynnig, fuddiant personol fel cyflogai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac un o'r swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus.

Datganodd holl aelodau'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol, Rheolwr Grŵp Datblygu a'r Rheolwr Gweithredol dros Fenter a Gwasanaethau Arbenigol ac eithrio'r Prif Weithredwr fuddiant personol yn eitem agenda 7 – Strwythur Tâl JNC a gadael y cyfarfod tra bod hyn yn cael ei ystyried.

87. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y Cyngor ar 1 Tachwedd 2017 fel rhai gwir a chywir.

88. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Cyhoeddodd y Maer â thristwch fod ŵyr y Cynghorydd Pucella, Luca, wedi marw yn ddiweddar. Dywedodd ei bod wedi anfon llythyr cydymdeimlo at y Cynghorydd Pucella a'i deulu.

Cyhoeddodd y Maer ei bod hi a'i Chonsort wedi cael y pleser o agor cartref gofal preswyl newydd yng Ngogledd Cornelly yn ddiweddar o'r enw Morgana Court & Lodge. Aeth hi a'i Chonsort ar daith gan ryfeddu at y syniadau oedd wedi'u hymgorffori yn y safle i ysgogi cleientiaid sydd â Demensia. Dywedodd fod cerddoriaeth yn cael ei chwarae mewn bar oedd yn edrych fel tafarn leol, safle bws â mainc yn y coridor, a blwch ffôn a blwch post. Roedd hefyd ystafell â theledu yn dangos cefn gwlad yn symud a phobl yn chwifio o'r caeau. Roedd yr ystafell fel bod ar drên, oedd yn ffordd wych o annog atgofion ac annog i'r preswylwyr gofio.

Dywedodd y Maer wrth y Cyngor ei bod wedi cael yr anrhydedd o fynychu Gwobrau Cyflawnwyr Ifanc Bridge FM yn ddiweddar. Roedd y digwyddiad nodedig hwn yn dathlu pobl ifanc o bob rhan o'r sir ac yn cydnabod eu cyflawniadau mewn busnes, hyfforddiant, addysg, celf, cerddoriaeth a gwirfoddoli. Dywedodd ei bod yn galonogol cwrdd â chymaint o bobl ifanc sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ein cymunedau.

Cyhoeddodd y Maer fod y wlad yn cofio'r sawl a gollwyd mewn rhyfeloedd i ddiogelu ein rhyddid ym mis Tachwedd. Roedd wedi cynrychioli'r Awdurdod mewn digwyddiad Sul Coffa ym Mhen-y-bont lle gorymdeithiodd y Maer a'r Consort a gosod torch ar ran y Cyngor a'i breswylwyr. Roeddent hefyd wedi mynychu digwyddiadau yn cefnogi'r lluoedd arfog, gan gynnwys cyngerdd Help for Heroes gyda Chorau a Bandiau gwych a Chyngerdd y Llynges Brydeinig Frenhinol yn Neuadd y Dref Maesteg, a oedd yn hyfryd.

Cyhoeddodd y Maer hefyd ei bod wedi cael y pleser o fynychu dau ddigwyddiadau gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Roedd y cyntaf ym Mhencadlys y Frigâd Dân yn Llantrisant ar gyfer cyflwyno medalau Gwasanaeth Hir ac Ymddygiad Da i bersonél sydd wedi gwasanaethu am rhwng 20 a 42 mlynedd. Cawsant hefyd y pleser o gwrdd â'r staff a'r Swyddogion ymroddedig sy'n gweithio fel Swyddogion Tân yng Ngorsaf Dân Porthcawl a ddangosodd eu hoffer tân cyn hefyd ddynwared gwrthdrawiad traffig. Dywedodd ei bod yn amlwg eu bod yn gweithio fel tîm ac yn falch iawn o'r Gwasanaeth Tân.

Cyhoeddodd y Maer hefyd ei bod hi a'i Chonsort wedi cael eu gwahodd i Brifysgol Abertawe i ddathlu bywyd y diweddar Rhodri Morgan. Disgrifiodd ei frawd y Rhodri 'go

iawn' gydag ACau ac eraill mewn academia gan rannu straeon o pan roeddent yn gweithio gyda'i gilydd. Roedd yn ysbrydoledig ac yn dangos yr oedd yn Ddyngarwr a Gwladweinydd gwych.

Dywedodd y Maer wrth y Cyngor ei bod hi a'r Consort wedi mynychu Maes Dangos Sioe Frenhinol Cymru ddoe a lansio Project Bwyd Argora a ddaeth â sefydliadau ac unigolion tebyg eu meddylfryd ynghyd o bob rhan o Gymru i drafod yr heriau sy'n wynebu'r sector cynnyrch. Bydd y project yn cael ei arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont mewn partneriaeth â saith Grŵp Gweithredu Lleol y Cynllun Datblygu Gwledig. Bydd y fenter 3 blynedd hon yn canolbwyntio ar greu cadwyni cyflenwi cadarn fel y gall busnesau gwledig bach gydweithio i fodloni galwadau busnesau manwerthu a thwristiaeth ar gyfer nwyddau lleol.

Cyhoeddodd y Maer, gan fod Rhagfyr bron yma, ei bod yn edrych ymlaen at fod yn brysur dros gyfnod y Nadolig ac y bydd yn ymweld â nifer o sefydliadau gofal i ddymuno Nadolig llawen i breswylwyr a defnyddwyr.

Cyhoeddodd y Maer hefyd fod pob Aelod wedi derbyn e-bost yn dweud bod yr enwebiadau ar gyfer Gwobrau Dinasyddiaeth Blynyddol y Maer ar agor. Mae'r gwobrau ar agor i bobl sy'n byw yn y fwrdeistref sirol yn ogystal â busnesau a grwpiau lleol. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y Maer lle gellir lawrlwytho ffurflen enwebu. Y dyddiad cau ar gyfer enwebu yw Dydd Gwener 26 Ionawr ac anrhydeddir yr enillwyr mewn digwyddiad ym mis Mawrth.

<u>Dirprwy Arweinydd</u>

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd wrth Aelodau y bydd y rownd nesaf o friffiau cyn Cyngor yn digwydd ar 20 Rhagfyr. Y pwnc fydd Trawsnewid Digidol. Ar 31 Ionawr, bydd cyfarfod cyn Cyngor ar weithredu Credyd Cynhwysol ac ar 28 Chwefror cyflwynir y Cynllun Datblygu Lleol. Dywedodd y cynhelir y sesiwn hyfforddi olaf ar y Cod Ymddygiad ar 13 Rhagfyr am 2pm. Roedd hon wedi'i dylunio'n benodol ar gyfer yr Aelodau hynny nad ydynt wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod y tymor presennol. Roedd hefyd yn gobeithio y byddai'r holl Aelodau yn gallu mynychu briff gan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Lleol am 4pm ar 9 Ionawr 2018 a fydd yn gweld y Comisiwn yn amlinellu'r' gwaith y bydd yn ei wneud dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd y bydd Aelodau wedi gweld y sylw yn y wasg am yr ystadegau ailgylchu calonogol. Mae'r rhain yn dangos bod ailgylchu cyffredinol rhwng Gorffennaf a Medi wedi codi o 57 y cant yn 2016 i bron 74 y cant ar gyfer yr un cyfnod yn 2017.
Mae'r canolfannau ailgylchu cymunedol wedi cofnodi 254 tunnell o gynnydd mewn ailgylchu rhwng Gorffennaf ac Awst a lleihaodd y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn ystod yr un gyfnod o 957 tunnell. Mae 7,720 o gartrefi ychwanegol wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth AHP gyda chyfartaledd o 100 o geisiadau ychwanegol yn cael eu derbyn bob wythnos. Hyd yma, mae 278 tunnell o gewynnau a gwastraff AHP wedi'i ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi. Dywedodd wrth y Cyngor fod y canlyniadau hyn yn bwysig iawn o ystyried y materion a'r pryderon amlwg sydd wedi'u codi am gyflwyno'r cynllun newydd. Dywedodd, er nad yw'r cynllun yn berffaith eto a bod angen gwneud rhywfaint o waith gyda Kier i gael y cynllun lle hoffai'r Cyngor iddo fod, fod y canlyniadau yn dangos bod y gweithdrefnau newydd yn gallu cyflawni'r targedau cenedlaethol llym newydd.
Roedd yn edrych ymlaen gyda diddordeb i weld sut caiff perfformiad Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ei raddio o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru.

<u>Aelod Cabinet Cymunedau</u>

Dywedodd yr Aelod Cabinet Cymunedau, fel pencampwr Cam-drin Domestig y Cyngor, ei fod yn blês gweld ymateb cryf i'r Ymgyrch Rhuban Gwyn eleni. Roedd nifer o ddigwyddiadau lleol wedi'u trefnu, y mae rhai ohonynt yn mynd o hyd, a'r neges eleni oedd 'torri'r cylch'.
I gefnogi hyn, aeth staff o Calan CVS, PCSOs a Gwirfoddolwyr Ifanc yr Heddlu â sioe deithiol i wahanol rannau o'r fwrdeistref sirol i godi ymwybyddiaeth o'r ffaith bod llawer o help a chymorth ar gael i unrhyw un sy'n dioddef o gam-drin domestig neu sy'n amau ei fod yn digwydd gyda chymydog, perthynas neu ffrind. Dywedodd wrth y Cyngor y bydd y sioe deithiol yn ymweld â'r Ganolfan ym Mhorthcawl ddydd Iau 30 Tachwedd rhwng 9.30am a 12.30pm, y Co-operative ym Mhorthcawl ddydd Llun 4 Rhagfyr rhwng 10am a hanner dydd ac Asda ym Mhen-y-bont ddydd Iau 7 Rhagfyr rhwng 10am a hanner dydd. Roedd yn gobeithio y byddai'r Aelodau'n dangos cefnogaeth a diolchodd i'r Cynghorydd David White am ei ymdrechion fel pencampwr Rhuban Gwyn. Ceir rhagor o wybodaeth am Ymgyrch y Rhuban Gwyn ar y wefan www.whiteribboncampaign.co.uk

Dywedodd yr Aelod Cabinet Cymunedau ei fod wrth ei fodd o weld bod yr awdurdod wedi gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Tref Porthcawl a bod 15 o finiau newydd wedi'u gosod ar hyd y prom ym Mhorthcawl. Dywedodd fod yr holl finiau newydd wedi'u hariannu gan Gyngor Tref Porthcawl ac y byddant yn cael eu gwasanaethu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd fod traean yn fwy o finiau nawr mewn lle ac nad oes esgus i berchnogion cŵn ac ymwelwyr i beidio â chodi baw eu hanifeiliaid anwes. Diolchodd i'r Cyngor Tref am weithio gyda'r Cyngor, sy'n dangos sut gall partneriaethau o'r fath weithredu er budd trigolion lleol. Roedd yn gobeithio gweld mwy o hyn.

Atgoffodd yr Aelod Cabinet Cymunedau yr Aelodau ei fod wedi cyhoeddi grant o £2,500 i Broject Dwr Mwynglawdd Caerau yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, sydd â'r nod o greu rhwydwaith gwres ar gyfer cartrefi lleol gan ddefnyddio dŵr sydd wedi casglu mewn hen fwyngloddiau. Ymhellach i'r cyhoeddiad hwnnw, mae nawr yn falch o gyhoeddi bod y project wedi denu mwy o gyllid grant, gyda'r Cyngor yn derbyn cynnig grant ffurfiol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o ychydig dan £6.5m ar gyfer datblygiad pellach y cynllun, yn amodol ar rywfaint o arian cyfatebol. Mae Project Caerau yn un o ddim ond tri phroject o'r fath yn y DU, ac mae'r swm a ddyfarnwyr yn adlewyrchu proffil a budd y Project ac yn cynrychioli 100% o'r arian grant y cynigiwyd amdano. Ni chaiff unrhyw arian grant ei dynnu i lawr tan ar ôl i'r arian cyfatebol fod mewn lle, ond unwaith ei fod mewn lle bydd y grant yn galluogi'r project i ddatblygu ymhellach. Gwnaeth longyfarch pawb sy'n rhan o'r project hwn a byddai'n rhoi rhagor o wybodaeth i Aelodau wrth i'r project cyffrous ddatblygu.

Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, gyda 45 o unedau Gofal Ychwanegol yn cael eu hadeiladu yn Ynysawdre, ei fod yn gofyn i'r Aelodau ledaenu'r gair am gystadleuaeth sy'n cael ei chynnal gan y Jehu Group a Linc Cymru. Gofynnir i bobl leol helpu i enwi'r datblygiad newydd a'r stryd sy'n rhedeg drwyddo. Dywedodd y bydd yr awgrymiadau buddugol yn ennill tocynnau rhodd £50 ac y gall pobl gymryd rhan drwy ebostio eu hawgrymiadau i sian.bridge@jehu.co.uk. Y dyddiad cau yw 1 Rhagfyr. Dywedodd wrth Aelodau hefyd, gydag ail gyfleuster Gofal Ychwanegol yn cael ei adeiladu ym Maesteg, fod hyn yn syniad da ac yn un a fydd yn helpu'r gymuned leol i fod yn rhan o'r datblygiad gwych.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar am help i godi ymwybyddiaeth bod diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed yn fusnes i bawb. Dywedodd y gall pawb helpu i atal camdriniaeth ac esgeulustod drwy fod yn fwy ymwybodol o'r arwyddion, nid yn unig anafiadau corfforol amlwg ond hefyd newidiadau mewn ymddygiad pobl. Dywedodd wrth Aelodau y gall camdriniaeth ddigwydd mewn

sawl ffordd ac y ceir rhagor o fanylion ar wefan Bwrdd Diogelu Bae'r Gorllewin, www.WBSB.co.uk.

Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol, yn dilyn cynnydd mewn cwynion i'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (SRS), efallai yr hoffai Aelodau ddweud wrth eu hetholwyr i fod yn ymwybodol o 'gynigion rhoi cynnig am ddim' a allai arwain at symiau misol am nwyddau a gwasanaethau nad ydynt eu heisiau. Amcangyfrifwyd bod 2m o bobl ledled y DU yn cael anawsterau yn ceisio canslo taliadau misol, y mae llawer ohonynt yn deillio o alwadau digroeso a sgamiau. Ar ôl cyfnod cychwynnol o 14 diwrnod, mae rhai cwsmeriaid ond yn sylwi fisoedd wedyn eu bod wedi cael eu gosod ar gyfer taliadau parhaus o'u cyfrifon banc. Dywedodd fod y rhybudd o SRS yn dod yn ystod Wythnos Genedlaethol y Defnyddwyr, sy'n dweud y dylai unrhyw sy'n meddwl ei fod wedi dioddef yn sgil sgám neu sydd am gael rhagor o wybodaeth gysylltu a Gwasanaeth Defnyddwyr y Ganolfan Cyngor ar Bopeth ar-lein neu drwy ffonio 03454 040506.

Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio y byddai Aelodau eisoes yn ymwybodol bod y Cyngor hwn wedi bod yn allweddol o'r gwaith o ailddechrau defnyddio'r hen dŵr gwylio ym Mhorthcawl drwy weithio ochr yn ochr â Sefydliad Cenedlaethol Gwylwyr y Glannau. Roedd wrth ei fodd o gael ebost diweddar gan reolwr yr orsaf Phil Styles yn rhoi gwybod bod yr orsaf bellach wedi'i chydnabod yn swyddogol fel sefydliad chwilio ac achub gan y Ganolfan Cydlynu Achub Arfordirol yn Aberdaugleddau. Dywedodd fod hyn yn haeddiannol gan mai'r orsaf yw'r un brysuraf yn y DU namyn un. Gyda chriw o 43 o wirfoddolwyr, maent wedi logio mwy na 5000 awr, cofnodi 4500 o symudiadau llong, wedi cyfrannu'n uniongyrchol at 36 o ddigwyddiadau a helpu i fonitro 46 arall. Gwnaeth longyfarch y gwirfoddolwyr am eu llwyddiant.

Roedd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio wrth ei fodd o fynychu lansiad rhwydwaith SEREN newydd y fwrdeistref sirol. Wedi'i ddylunio gefnogi meddyliau ifanc gorau'r ardal, mae'r rhwydwaith yn darparu digwyddiadau a gweithdai arbennig drwy gydol y flwyddyn sy'n eu helpu i dargedu lleoedd mewn prifysgolion da. Dywedodd fod tua 150 o'r myfyrwyr Lefel A gorau wedi dod ynghyd ar gyfer y lansiad yng Ngholeg Pen-y-bont lle gwnaethant gwrdd â chynrychiolwyr o brifysgolion fel Rhydychen a Chaerfaddon. Hefyd yn bresennol roedd The Brilliant Club, elusen sy'n cefnogi plant o gymunedau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ddigon i gael mynediad i sefydliadau gorau'r wlad. Dywedodd ei fod wedi'i sefydlu mewn partneriaeth â chweched dosbarthiadau, Coleg Pen-y-bont a Llywodraeth Cymru a bod y rhwydwaith yn ffurfio rhan o ganolfan ranbarthol ehangach a'i fod yn siŵr o fod o fudd mawr i bobl ifanc leol dalentog.

Hefyd, cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio lansiad diweddar arall, sef rhaglen Prentisiaeth Ifanc gyntaf y fwrdeistref sirol sy'n cynnig cyrsiau galwedigaethol mewn gwallt a harddwch, gwasanaethau cyhoeddus ac adeiladu neu ddylunio gerddi. Mae hyn yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, y Cyngor, ysgolion a Choleg Pen-y-bont ac yn cefnogi 45 o bobl yn eu harddegau sy'n astudio yn y coleg wrth weithio tuag at TGAU mewn Saesneg a Mathemateg. Dywedodd fod hwn yn gyfle gwych i ddisgyblion blwyddyn 10 ac 11 i gael profiad ymarferol, ac mae gan Goleg Pen-y-bont ar Ogwr gysylltiadau helaeth â chyflogwyr lleol i roi help llaw iddynt.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio fod Aelodau yn siŵr wedi gweld y newyddion lleol am gynllun gwella busnes newydd Marchnad Dan Do Pen-y-bont ar Ogwr. Lluniwyd hwn ochr yn ochr â Phartneriaeth Marchnad Pen-y-bont ar Ogwr i greu stondinau newydd, denu mwy o ymwelwyr a gwella'r profiad siopa cyffredinol yn y

farchnad. Dywedodd fod y masnachwyr wrthi'n ystyried y cynigion ac yr arhosir am eu hadborth. Mae'r cynigion wedi'u llunio i gyflawni rhai pethau penodol iawn. Ymysg y cynigion mae polisi rhent ailstrwythuredig, ad-daliad rhent 15 y cant yn ystod cyfnod tawel y Nadolig, penodi asiantau masnachol i hyrwyddo a gosod stondinau, sefydlu Cymdeithas y Farchnad a chynllun gwella a chyfathrebu, cronfa gwella'r farchnad a mwy. Dywedodd wrth y Cyngor fod hwn yn ddarn o waith cyffrous ac uchelgeisiol sy'n dangos ymrwymiad y Cyngor ac a allai fod yn allweddol ar gyfer gwella dyfodol y farchnad dan do. Gwnaeth gydnabod a diolch i Bartneriaeth Marchnad Pen-y-bont ar Ogwr am eu holl ymdrechion a chymorth ystod datblygiad y cynllun.

Prif Weithredwr

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr y bydd yr ymgynghoriad ar y gyllideb yn dod i ben y penwythnos hwn ddydd Sul 3 Rhagfyr a diweddarodd yr Aelodau ar sut roedd pethau'n mynd a gofyn i'r Aelodau annog eu hetholwyr i sicrhau eu bod yn dweud eu dweud cyn i'r dyddiad cau basio. Dywedodd wrth Aelodau fod yr ymgynghoriad ar y gyllideb yn gofyn i drigolion helpu i nodi pa feysydd y dylid eu blaenoriaethu yng nghyllideb y flwyddyn nesaf. I helpu i gyflawni hyn, mae'r Cyngor wedi cynnal amrywiaeth o hysbysebu ar draws y cyfryngau cymdeithasol, ar-lein ac mewn papurau newydd lleol fel y Glamorgan Gazette a Glamorgan Gem. Dywedodd fod cyfres o ddatganiadau i'r wasg wedi'u cyhoeddi, yr aeth yr olaf ohonynt allan yn gynharach wythnos yma i helpu i atgoffa pobl am y terfyn amser sydd ar ddod.

Dywedodd wrth y Cyngor ei fod ef a'r Dirprwy Arweinydd hefyd wedi cymryd rhan mewn sgwrs fyw ar Facebook a Twitter lle gwahoddwyd cwestiynau a barn ar faterion yn ymwneud â'r gyllideb.

Hefyd, dywedodd wrth Aelodau fod y Cyngor wedi cwrdd â grwpiau lleol fel Bridgend Shout, Cyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr, grŵp 50+ ym Maesteg, Shedquarter ac aelodau o Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn casglu barn ac adborth. Mae fersiwn symlach o arolwg yr ymgynghoriad wedi'i llunio ar gyfer trigolion iau, a hyd yma mae 100 o ymatebion wedi'u derbyn. Dywedodd fod cyfres o weithdai lleol wedi'u cynnal mewn lleoliadau gwahanol ledled y Fwrdeistref Sirol ac y disgwylir i'r olaf o'r rhain gael ei gynnal nos Iau yng Nghanolfan Valley Life Aberogwr rhwng 4pm a 6pm. Hyd yma, mae 1,572 o holiaduron cyflawni wedi'u derbyn ac mae ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda'r Panel Dinasyddion. Cafodd y rhan fwyaf eu llenwi ar-lein ond mae'r arolwg hefyd wedi bod ar gael ar gopi caled mewn llyfrgelloedd lleol. Gyda'r dyddiad cau yn nesáu, roedd yn gobeithio y byddai Aelodau'n annog cymaint o bobl â phosibl i ddweud eu dweud a helpu i benderfynu sut caiff yr heriau hyn eu hwynebu.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cyngor am ganlyniad profion gwallau pellach a gynhaliwyd ar hawliadau Budd-dal Tai yn dilyn y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru lle profwyd sampl o 45. Roedd y sampl yn cynnwys 11 o achosion â gwallau – byddai'r rhain yn wall damcaniaethol o tua £1.9m. Mae gwaith manwl pellach wedi'i gynnal ar 120 o achosion, a ddatgelodd 2 wall gyda swm o £97 mas o gyfanswm o £500k. Yn dilyn archwiliad o'r hawliad DWP, daethpwyd o hyd i wallau gwerth cyfanswm o £350 mas o gyfanswm hawliadau o £50m. Dywedodd fod y DWP yn ystyried amrywiaeth rhesymol i fod yn £200k. Yn gryno, dywedodd na ddaethpwyd o hyd i unrhyw wendidau rheoli sylweddol.

Swyddog Monitro

Cyhoeddodd y Swyddog Monitro y newidiadau canlynol i gylch y Pwyllgor:

1. Bydd y Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 2 a drefnwyd ar gyfer 7 Rhagfyr 2017 nawr yn dechrau ar y dyddiad hwn am 1pm yn hytrach na 9.30am fel y trefnwyd

yn wreiddiol. Roedd angen gwneud y newid hwn oherwydd roedd amseru gwreiddiol y cyfarfod yn cyd-daro â digwyddiad pwysig arall sy'n cael ei arwain gan y Cyngor (Olympage).

2. Mae'r Pwyllgor Trwyddedu a oedd yn y dyddiadur ar gyfer 19 Rhagfyr 2017 yn wreiddiol wedi'i ddwyn ymlaen i 11 Rhagfyr am 2.00pm er mwyn peidio ag oedi eitem allweddol o fusnes yr agenda.
3.
4. Penderfynwyd bod angen cynnal cyfarfod arall o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn ystyried paratoi Siarter yr WLGA ar gyfer Cymorth a Datblygu Aelodau. Disgwylir i'r cyfarfod fod ar 17 Ionawr 2018 am 4.00pm.

5. Yn olaf, penderfynwyd bod angen trefnu cyfarfod pellach ar gyfer y Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 1 ar 18 Ionawr 2018 am 9.30am.
6. Y rheswm am hyn yw i ystyried gwybodaeth bellach am Ailfodelu Preswyl Gwasanaethau Plant cyn i'r Pwyllgor wneud sylwadau ac argymhellion ar y model arfaethedig ar gyfer y dyfodol.

Dywedodd wrth y Cyngor yr ymgynghorwyd â Chadeiryddion pob Pwyllgor a'u bod i gyd yn cytuno â'r cynigion.

## 89. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Dywedodd yr Arweinydd wrth Aelodau am yr ymateb diweddar a gafodd gan Gadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf am bryderon y Cyngor ynghylch effaith bosibl y newid ffiniau. Dywedodd eu bod wedi cynnig sawl sicrwydd pe bai'r newidiadau'n mynd yn eu blaen, gan gynnwys:

- Maent yn ymrwymedig i gynnal a gwella gwasanaethau iechyd i bobl leol a chanlyniad Rhaglen De Cymru.
- 
- Mae'r ymgynghoriad sydd ar ddod yn ymwneud yn llwyr â'r ffin sefydliadol.
- Byddai angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar wahân ar unrhyw newidiadau yn unol â fframweithiau rheoliadol.
- Mae amseroedd aros ysbyty Cwm Taf yn is nag yn ardal ABMU ar hyn o bryd. Pe bai Tywysog Cymru yn dod yn rhan o BIP Cwm Taf, bydd y ffocws ar ddod ag amseroedd aros Tywysog Cymru yn unol â hyn.
- 
- Nid oes unrhyw gwtogi wedi'i drefnu ar gyfer Tywysog Cymru.
- Roedd Cwm Taf yn bwriadu gweithio gyda AMBU i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth ar draws pob safle.
- 
- Bydd mynediad traws-ffiniol i driniaeth a gwasanaethau rhyng-ranbarthol yn parhau.
- 
- Er y gellir adolygu llwybrau cleifion yn ddiweddarach, bydd hyn ond yn digwydd os yw'n gwella hygyrchedd ac ansawdd gofal ac yn arddangos y manteision yn glir i gleifion.
- 
- O ran Ysbyty Cymunedol Maesteg, roedd yr ymateb yn cyfaddef nad yw Cwm Taf yn gyfarwydd â'r safle a'r gwasanaethau ar hyn o bryd, ond pwysleisiwyd mai'r bwriad yw i ddeall seilwaith cyfan y gymuned dros yr wythnosau nesaf.
- 
- Er na allent roi sylwadau penodol ar yr ysbyty, mae gan Gwm Taf hanes o fuddsoddi mewn gwasanaethau cymunedol a sefydlu ysbytai cymunedol fel hybiau clwstwr sy'n

dod â gwasanaethau sylfaenol, eilaidd a gofal cymdeithasol ynghyd. Mae hyn yn rhywbeth y byddent yn edrych arno yn lleol.

Dywedodd yr Arweinydd wrth Aelodau fod y llythyr yn dod i'r casgliad fod Cwm Taf yn ystyried newidiadau arfaethedig i'r ffin yn gyfle i wella gwasanaethau ar draws y tair ardal awdurdod lleol, i rannu arbenigedd ac adnoddau ac i wella profiad y claf a mynediad i wasanaethau. Dywedodd fod y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd hefyd wedi pwysleisio y byddant yn hapus i ddod i gwrdd ag Aelodau i ateb cwestiynau a thrafod unrhyw bryderon yn uniongyrchol, ac y byddai'n cyflwyno rhagor o fanylion am hyn wrth i'r peth ddatblygu.

Dywedodd yr Arweinydd hefyd wrth yr Aelodau am lythyr a gafodd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y rhaglen Credyd Cynhwysol yn rhoi gwybod i'r awdurdod y caiff pedwar prif newid eu gwneud i'r system pan fydd deddfwriaeth briodol wedi'i chymeradwyo. Dywedodd y byddai'r newid cyntaf yn galluogi arhosiadau byr mewn llety dros dro i gael eu talu drwy'r Budd-dal Tai, ac mai'r bwriad yw lleddfu pryderon ariannol a fynegwyd gan awdurdodau lleol. Mae'r holl newidiadau eraill yn ymwneud â'r cyfnod asesu cyntaf.

Roedd y llythyr hefyd yn dweud y diddymir y cyfnod aros presennol o 7 diwrnod. Y cyfnod pontio i unrhyw un sy'n trosglwyddo o'r Budd-dal Tai fydd 2 wythnos, a chaiff y cyfnod ad-dalu ar gyfer blaendaliadau newydd ei ymestyn i 12 mis i alluogi hawlwyr i gael hyd at 100 y cant o'u hawliad. Diben y newidiadau yw cefnogi hawlwyr yn ystod y cyfnod asesu cyntaf yn dilyn lobïo gan gynghorau ymysg cwynion fod pobl wedi'u gadael heb daliadau yn ystod y prosesu.
Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar y broses o gyflwyno amserlen y system a bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn cysylltu â chynghorau yr effeithir arnynt â rhagor o fanylion. Gobeithir cael rhagor o wybodaeth am hyn yn fuan.

Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cyngor fod y Cadeirydd Dr Ruth Hussey a'r Athro Keith Moultrie, wrth roi tystiolaeth i'r Comisiwn Seneddol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn glir bod model integredig y Cyngor o ofal cymunedol canolradd i bobl hŷn yn enghraifft o arfer gorau, nid yn unig yng Nghymru ond y DU gyfan. Dywedodd, pe bai newid, y sicrheir bod y gwasanaethau cymunedol hanfodol hyn yn parhau i gael eu datblygu.

Cyhoeddodd yr Arweinydd hefyd, fel rhan o Ein Cymoedd Ein Dyfodol, ei fod yn blês iawn fod yr Ysgrifennydd Cabinet newydd ar gyfer Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies, wedi cyhoeddi seithfed canolfan strategol, sef gogledd Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd y Cyngor wedi gweithio'n galed i sicrhau bod Garw, Llynfi ac Ogwr yn ffocws ar gyfer buddsoddiad cyhoeddus, gyda'r nod o sicrhau bod y canolfannau'n denu buddsoddiad sector preifat, gan greu swyddi a chyfleoedd. Dywedodd fod y broses o ddatblygu cynigion ar gyfer y ganolfan strategol, yn seiliedig ar y themâu cychwynnol yng nghynllun cyflenwi Llywodraeth Cymru, bellach yn mynd rhagddi. Dywedodd hefyd y bydd y gweithgor a phob un o'r saith awdurdod lleol yn cynnal seminar canolfan strategol i gefnogi datblygiad glasbrint buddsoddi ar gyfer pob ardal dros y 15 mlynedd nesaf. Nodir y projectau penodol i'w hariannu dros dymor y Cynulliad erbyn Ebrill 2018. Yn ogystal â'r canolfannau strategol, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried parc Tirwedd y Cymoedd i achub ar gyfleoedd hamdden a thwristiaeth yn y dirwedd naturiol a'r dreftadaeth gyfoethog.

Cyhoeddodd hefyd fod Heathrow wedi cyhoeddi rhestr hir o 65 o leoliadau Canolfan Logisteg; canolfannau oddi ar y safle ar gyfer adeiladu a gweithgynhyrchu a fydd yn helpu'r maes awyr i gyflawni ei gynllun ehangu. Dywedodd y bydd y Canolfannau Logisteg yn adeiladu'r drydedd rhedfa oddi ar y safle, gan ddod â swyddi i bob cwr o'r DU. Mae safle ym Mrocastell ymysg y safleoedd ar y rhestr fer. Roedd y maes awyr hefyd wedi datgelu 10 lleoliad Uwchgynhadledd Busnes, gan gynnwys un yng

Nghaerdydd, gan sicrhau bod pob ardal o'r DU yn cael budd o gyfleoedd cadwyn gyflenwi drwy'r ehangiad.

Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cyngor am y cynnydd sy'n cael ei wneud yn adeiladu Ysgol Gynradd Betws ac Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Garw a fydd yn rhannu'r un safle o Ionawr 2018. Bydd Ysgol Gynradd newydd Brynmenyn yn barod yn Chwefror ac roedd y gwaith o adeiladu Ysgol Gynradd newydd Pencoed yn parhau a byddai'n barod ym Medi 2018. Dywedodd y byddai cyflwyniad Band B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses o osod cyllideb.

## 90. PENODIAD DROS DRO – PENNAETH CYLLID

Ceisiodd y Prif Weithredwr gymeradwyaeth i wneud apwyntiad dros dro i'r rôl Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cyngor fod deiliad presennol y swydd wedi ymddiswyddo ac y bydd ei gontract yn dod i ben ar 3 Ionawr 2018, ac i'w alluogi i adolygu'r trefniadau cyffredinol cynigiodd gynnal proses benodi ar gyfer Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 dros dro. Byddai hyn yn sicrhau digon o allu arwain a rheoli a bod penderfyniadau ariannol a chyngor prydlon ar gael yn ystod absenoldeb Swyddog Adran 151 parhaol.

Dywedodd wrth y Cyngor y bydd y broses o benodi Pennaeth Cyllid dros dro yn cynnwys dod o hyd i ymgeiswyr cymwys a phrofiadol i gyflawni'r rôl a phanel cyfweld o swyddogion yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid sy'n gadael ei rôl a chynrychiolydd AD a fydd yn asesu gallu'r ymgeiswyr.

Cwestiynodd yr Aelodau y trefniadau a gynigiwyd gan y Prif Weithredwr gan eu bod wedi bod yn rhan o benodiad blaenorol Prif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth drwy'r Pwyllgor Penodiadau. Cwestiynodd yr Aelodau hefyd am ba hyd y dylid penodi'r swyddog dros dro. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cyngor mai dyma'r tro cyntaf yr ystyrir penodi swyddog dros dro yn y modd hwn a bod trefniadau mwy ffurfiol fel arfer yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer apwyntiadau. Dywedodd y bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda'r Cabinet cyn gwneud apwyntiad dros dro. Dywedodd wrth y Cyngor mai'r amserlen ar gyfer penodiad dros dro yw tua 6 mis, gyda'r posibilrwydd o estyniad. Dywedodd nad oedd yn hawdd gwneud apwyntiad parhaol ar gyfer swyddi uwch ac y byddai'n treulio amser yn ystod y penodiad dros dro i adolygu'r strwythur o uwch reolwyr. Tynnodd sylw at bwysigrwydd gwneud penodiad dros dro er mwyn cael dilyniant a'r angen i gael Swyddog Adran 151 mewn swydd. Hefyd, dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cyngor na fyddai'r graddau cyflog JNC yn berthnasol gan y cynigir gwneud penodiad dros dro. Byddai'r penodiad yn cael ei wneud ar sail prif sefydlog a byddai gwerth am arian yn ystyriaeth allweddol.

Ymrwymodd yr Arweinydd i ymgynghori â'r Arweinwyr Grŵp ar benodiad dros dro y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151.

PENDERFYNWYD: Dirprwyodd y Cyngor awdurdod i'r Prif Weithredwr gynnal y gwaith o recriwtio a phenodi Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 dros dro.

## 91. STRWYTHUR TALU JNC

Ceisiodd y Prif Weithredwr gymeradwyaeth i weithredu dull newydd o ran tâl uwch reolwyr.

Dywedodd wrth y Cyngor fod y strwythur fod y strwythur cyflog JNC presennol wedi bod ar waith ers 2008. Mae bylchau mawr yn y strwythur presennol rhwng haenau uwch reolwyr. Dywedodd fod y strwythur presennol wedi arwain at anallu i fod yn ddigon hyblyg mewn rolau fel y gall y Cyngor ddarparu pecyn cydnabyddiaeth a all ddenu staff o'r safon briodol. Roedd hefyd yn cyfyngu ar y gallu i gynllunio dilyniant a galluogi datblygiad gyrfaol.

Adroddodd ar gynnig i weithredu graddfa gyflog uwch reolwyr fwy hyblyg gyda'r nod o fynd i'r afael â'r ddau bryder gan alluogi lleihad targedig o 20% mewn costau uwch reoli i'r Cyngor dros y ddwy flynedd nesaf, sy'n cyfateb i tua £500,000 y flwyddyn. Dywedodd y disgwylir i hyn ddeillio o drosiant staff ac ailstrwythuro dilynol y sefydliad a, gyda'r strwythur cyflog arfaethedig mewn lle bydd y Cyngor mewn sefyllfa i ymateb yn well i rymoedd y farchnad. Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau i'r strwythur NJC fel rhan o'r ymarfer hwn. Roedd y strwythur JNC newydd hefyd yn cynnig cael ei ymestyn lawr i bontio'r bwlch o ran hynny ar frig y raddfa NJC. Tynnodd sylw at y strwythur cyflog JNC arfaethedig y cynigiwyd ei roi ar waith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Cynhelir ymgynghoriad â'r undebau llafur ar y newidiadau arfaethedig i'r strwythur cyflog JNC a chyhoeddwyd ymgynghoriad ffurfiol i ddeiliaid swyddi JNC presennol. Dywedodd wrth y Cyngor y byddai'r cynigion yn cael eu hatgyfeirio at Banel Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru i geisio cytundeb.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cyngor yn cymeradwyo'r strwythur cyflog JNC newydd gyda dyddiad dod i rym o 1 Ebrill 2018.

92. SAIL TRETH GYNGOR 2018-19

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad gyda'r diben o roi i'r Cyngor fanylion am y sail treth gyngor gyda chyfradd gasglu amcangyfrifedig ar gyfer 2018-19.

Dywedodd mai'r sail treth gyngor amcangyfrifedig ar gyfer 2018-19 oedd 54,403.60 ac amcangyfrifodd gyfradd gasglu o 98%. Y sail treth gyngor net oedd felly 53,315.53. Ychwanegodd fod cyfraddau casglu dros y 3 blynedd ddiwethaf wedi bod yr uchaf eto a'r gyfradd gasglu amcangyfrifedig yn y flwyddyn ddiwethaf oedd 97.6%, sef yr uchaf y mae'r Awdurdod byth wedi'i chyflawni.

Dywedodd y Swyddog Adran 151 wrth yr Aelodau nad yw'r awdurdod yn dileu dyledion Treth Gyngor ac y bydd yn parhau i gasglu dyled hanesyddol.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cyngor yn:

(1) Cymeradwyo'r sail treth gyngor a chyfradd gasglu ar gyfer 2018-19 fel y dangosir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad.

Cymeradwyo'r seiliau treth ar gyfer yr ardaloedd cymunedol a nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.

93. DIWYGIAD I'R RHEOLAU GWEITHDREFN ARIANNOL YNG NGHYFANSODDIAD Y CYNGOR

Ceisiodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 gymeradwyaeth i'r diwygiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n adlewyrchu newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (FPR). Dywedodd nad yw'r FPRau wedi'u diwygio am flynyddoedd, ac yn ystod y cyfnod hwn mae prosesau ariannol a gweithdrefnau a deddfwriaeth a chanllawiau newydd wedi dod i rym.

Dywedodd wrth y Cyngor fod swyddogion wedi adolygu'r FPRau a gwneud newidiadau yn ymwneud â:

- rheolau newydd yn ymwneud â thalu ymgynghorwyr;
- dulliau talu newydd, e.e. cardiau prynu;
- polisïau a strategaethau newydd e.e. Polisi Grantiau, Cronfeydd Wrth Gefn a Phrotocol Balansau, Polisi Llwgrwobrwyo Gwrth-Dwyll.

Nododd y byddai angen diwygiad pellach i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol pan fyddai'r Deddf Diogelu Data yn cael ei disodli â'r Bil Diogelu Data (sy'n ymgorffori'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol).

Cwestiynodd aelod o'r Cyngor ddiogelwch o ran defnyddio cardiau prynu. Dywedodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 fod cardiau prynu ond ar gael i swyddogion awdurdodedig. Mae cyfyngiadau credyd ar gardiau ac mae'n rhaid i'r holl wariant ar y cardiau gael ei awdurdodi gan reolwyr llinell. Adolygir y defnydd o gardiau prynu gan swyddogion o'r adran Cyllid a Chaffael ac mae rheoliadau llym ar waith yn llywodraethu eu defnydd. Dywedodd wrth Aelodau fod y Cyngor yn cael ad-daliad o'r defnydd o gardiau prynu ac ymrwymodd i roi manylion yr ad-daliad i Aelodau.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol ac yn dilyn hynny cymeradwywyd y Cyfansoddiad wedi'i ddiweddaru.

94. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2017 AR GYFER CYNLLUN DATBLYGU LLEOL PEN-Y-BONT AR OGWR 2006 - 2021

Adroddodd y Rheolwr Grŵp Datblygu ar ganfyddiadau Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) 2017 y Cynllun Datblygu Lleol a cheisiwyd cymeradwyaeth y byddai'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cymryd rôl y Grŵp Llywio CDLl.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp Datblygu wrth Aelodau mai'r adroddiad yw'r 3ydd adroddiad o'r fath sydd wedi'i gyhoeddi ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu yn 2013. Dywedodd mai'r CDLl yw un o'r strategaethau lefel uchel y mae'n rhaid iddi gael ei pharatoi gan y Cyngor sy'n nodi blaenoriaethau'r Cyngor mewn termau defnydd tir ond rhaid iddi hefyd gydymffurfio â pholisi a rheoliadau cenedlaethol. Mae'r cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cynnwys ymgynghori a chraffu annibynnol sylweddol. Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i adolygu'r holl faterion y disgwylir iddynt effeithio ar ddatblygiad yn ei ardal ac mae Adran 76 o Dfeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r materion hyn gael eu mynegi ar ffurf Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Dywedodd wrth y Cyngor fod yr AMR yn ei hanfod yn 'Wiriad Iechyd' ar gyfer y CDLl, sy'n penderfynu pa mor effeithiol y mae wedi bod o ran bodloni amcanion y cynllun a ph'un a yw'r strategaeth ddatblygu sy'n sail i'r cynllun parhau'n ddilys. Mae'r AMR hefyd yn ystyried sut gallai newidiadau cyd-destunol, fel cyflwr yr economi a dylanwadau cenedlaethol a rhanbarthol a newidiadau i ddeddfwriaeth, hefyd ddylanwadu ar lwyddiant neu ddilysrwydd y Cynllun. Tynnodd sylw at rai o'r 'canfyddiadau allweddol' o ddadansoddiad data 2017 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017:

Mae 4978 o aneddiadau newydd wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod hyd at 2017 – gyda 1150 yn fforddiadwy.

Mae gan y Cyngor gyflenwad tir sydd ar gael ar gyfer tai a asesir yn erbyn y gofyniad tai yn y CDLl o 4.0 blynedd, sydd yn is na'r gofyniad isaf o 5 mlynedd.

Yn ystod y cyfnod monitro datblygwyd 1.4 hectar o dir cyflogaeth gwag, sy'n is o lawer na gofyniad y CDLl o 6.3 hectar y flwyddyn.

Wrth benderfynu pa mor llwyddiannus mae strategaeth Datblygiad Gofodol a Arweinir Adfywio y CDLl wedi bod, mae'r CDLl wedi nodi 4 ardal Twf Strategol ym Mhen-y-bont, Porth y Cymoedd, Maesteg a Phorthcawl. Mae gwaith monitro gweithrediad dyraniadau tai a chyflogaeth yn dangos bod ardaloedd strategol Pen-y-bont a Phorth y Cymoedd wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran darpariaeth ond mae Ardaloedd Twf Maesteg a Phorthcawl wedi tanberfformio. Priodolir y tanberfformiad hwn yn bennaf i faterion hyfywedd ym Maesteg a materion perchnogaeth tir ym Mhorthcawl lle mae Ardal Adfywio Glannau Porthcawl wedi methu â darparu'r lefelau twf disgwyliedig.

Mae Cyfraddau Adeiladau Gwag canol ein trefi yn 17.7% ym Mhen-y-bont, 4.9% ym Mhorthcawl a 6.0% ym Maesteg. Yn y cyd-destun hwn mae Cyfradd Adeiladau Gwag Canol Trefn Pen-y-bont ar Ogwr yn uwch na tharged y CDLl o 15%.

O ran monitro'r angen i ddarparu Safle Sipsiwn a Theithwyr parhaol neu symudol, penderfynwyd ar hyn drwy ddiweddaru tystiolaeth yn yr Arolwg Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddar. Mae'r arolwg yn dangos nad oes gofyniad hyd at 2021 a gofyniad am 1 llain ychwanegol hyd at 2031.

Mae'r Fwrdeistref Sirol yn gwneud cyfraniad sylweddol at y targedau ynni adnewyddadwy cenedlaethol. Mae'r capasiti cynhyrchu yn a gerllaw'r SSA newydd (i'r gogledd o Evanstown a Bro Ogwr) yn 65MW, sy'n uwch o lawer na'r capasiti disgwyliedig o 31MW.

Tynnodd Rheolwr y Grŵp sylw at gasgliadau allweddol yr Adroddiad Monitro Blynyddol eleni, sef bod polisïau'r cynllun yn cael eu bodloni'n gyffredinol gyda'r Cynllun yn symud tuag at ei dargedau a bod Strategaeth Ddatblygu'r CDLl yn parhau'n gadarn. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cydnabod bod rhaid iddo symud ymlaen ag Adolygiad o ystyried bod rhwymedigaeth statudol arno i gynnal adolygiad llawn 4 blynedd ar ôl mabwysiadu a gorchymyn i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyflenwad tir sydd ar gael ar gyfer tai.

Dywedodd mai argymhellion yr AMR yw bod Awdurdod Cynllunio Lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn dechrau Adolygiad statudol o'r CDLl ar ddechrau 2018 ac er mwyn hwyluso'r adolygiad, bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cymryd rôl Grŵp Llywio'r CDLl. Ei swyddogaeth fydd craffu ar gamau allweddol paratoi'r cynllun a chasglu tystiolaeth a gwneud argymhellion yn y dyfodol i'r Cyngor.

Adroddodd y Rheolwr Grŵp Datblygu bod cam nesaf adolygiad y Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi 'Adroddiad Adolygu' manwl a fydd yn adrodd i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r Cyngor. Bydd Adroddiad yr Adolygiad yn nodi'n glir yr hyn sydd wedi'i ystyried, pa randdeiliaid allweddol yr ymgysylltwyd â hwy a, lle bo angen newidiadau, beth sydd angen ei newid a pham.

Adroddodd y Rheolwr Grŵp Datblygu ar gynnig i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu gymryd rôl y Grŵp Llywio CDLl i oruchwylio'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol o'r dechrau i'r diwedd.

Cwestiynodd Aelod o'r Cyngor effaith canolfan gyflogaeth y gogledd ar y CDLl. Dywedodd y Rheolwr Grŵp Datblygu yr ystyrir datblygiad y ganolfan fel rhan o'r dystiolaeth, a fydd yn llywio'r CDLl.

Cwestiynodd aelodau o'r Cyngor pam nad oedd eiddo masnachol gwag yng nghanolfan tref Pencoed ymysg canfyddiadau allweddol yr AMR. Dywedodd y Rheolwr Grŵp Datblygu wrth y Cyngor fod Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i chynnwys yn yr AMR at ddibenion monitro gan ei bod yn 'ganolfan is-ranbarthol' a bod Maesteg a Phorthcawl wedi'u dosbarthu fel 'canol trefi'. Nid yw Pencoed yn y categori hwn gan ei bod yn 'ganolfan dosbarth' heb fod yn amodol i'r un lefel o fonitro. Mynegodd yr Aelodau bryder fod y cyfraddau eiddo masnachol gwag yn uwch na'r targed ym Mhen-y-bont er bod canol trefi Maesteg a Phorthcawl yn rhagori ar y targed. Dywedodd y Rheolwr Grŵp Datblygu ei bod yn siomedig nad yw'r targedau adeiladau gwag ym Mhen-y-bont wedi'u cyrraedd. Er bod y cyfraddau ond ychydig yn is na'r targed, roedd arwyddion o welliant bach dros y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd y gallai cwmpas adolygiad y CDLl gael ei ehangu i edrych ar ffiniau canol tref a chael targedau mwy realistig ar gyfer eiddo masnachol gwag.

Gofynnodd yr aelodau hefyd i'r adolygiad edrych yn fanwl ar safleoedd diwydiannol cyfredol. Dywedodd y Rheolwr Grŵp Datblygu y bydd proses y CDLl yn gweld llawer o ymgysylltu ac y byddai ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod safleoedd diwydiannol yn cael eu meddiannu.

Cyfeiriodd Aelod o'r Cyngor at iselhau'r ganran i ddarparu tai fforddiadwy yn y CDLl presennol a gofynnodd a fyddai hyn yn cael ei gynyddu fel rhan o'r adolygiad. Dywedodd y Rheolwr Grŵp Datblygu fod hyn eto yn seiliedig ar dystiolaeth a bod yn rhaid i'r CDLl fod yn realistig. Dywedodd fod adeiladwyr tai masnachol yn cael cyfrannu at yr Astudiaeth Argaeledd Tir Tai ar y Cyd a bod gan y Fwrdeistref Sirol ofyniad tai o 4 blynedd yn y CDLl presennol, sydd wedi gostwng islaw 5 mlynedd yn ddiweddar. Ymgynghorir â'r adeiladwyr tai hefyd fel rhan o adolygiad y CDLl. Dywedodd hefyd y gallai'r gofyniad tai fforddiadwy effeithio ar ba mor realistig mae rhai safleoedd. Bydd unrhyw CDLl newydd yn amodol ar archwiliad allanol a gynhelir gan Arolygydd Cynllunio annibynnol a byddai angen i'r cynllun brofi ei fod yn realistig cyn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mynegodd Aelodau bryder am y diffyg eiddo 1 ystafell wely yn y Fwrdeistref Sirol.

Soniodd Aelod o'r Cyngor am yr angen i ymgysylltu â darparwyr Gofal Iechyd Sylfaenol er mwyn gwella cyfleusterau iechyd cymunedol fel rhan o'r thema o gynnydd cymdeithasol sy'n cydnabod anghenion pawb. Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp Datblygu yr ymgynghorir â darparwyr Gofal Iechyd Sylfaenol a fydd yn elfen allweddol o ran cynllunio'r cynllun newydd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio y byddai hefyd angen i leoedd ysgol gael eu hadolygu fel rhan o'r broses. Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp Datblygu y byddai'n rhaid adolygu'r cyflenwad o leoedd ysgol yn ogystal â datblygiadau tai. Tynnodd sylw at bwysigrwydd darparu'r seilwaith cywir er mwyn cefnogi datblygiadau tai newydd.

Soniodd Aelod o'r Cyngor am bwysigrwydd cael canol trefi bywiog ac amrywiol ac ymddengys fod Pencoed wedi'i cholli o'r broses adolygu. Dywedodd y Rheolwr Grŵp Datblygu wrth y Cyngor nad yw Pencoed wedi'i cholli o'r broses a'i bod wedi'i chynnwys yn y CDLl fel Canolfan Dosbarth ynghyd ag ardaloedd eraill gan gynnwys Mynyddcynffig, Abercynffig a'r Pîl. Dywedodd wrth y Cyngor hefyd y bydd pob rhan o'r Cyngor yn rhan o'r broses adolygu CDLl.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Y byddai'r Cyngor yn:

(1) Nodi cynnwys yr AMR;

Cytuno y byddai'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cymryd rôl y Grŵp Llywio CDLl i helpu i gynhyrchu a disodli Cynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr.

95. SYMUD I FFWRDD O'R CYNLLUN DATBLYGU – CAIS CYNLLUNIO P/17/585/FUL

Nododd y Rheolwr Grŵp Datblygu fod y pwyllgor Rheoli Datblygu, yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2017, wedi ystyried cais cynllunio P/17/585/FUL yn lle'r Cynllun Datblygu Lleol. Dywedodd fod y Pwyllgor wedi penderfynu peidio â gwrthod caniatâd cynllunio a chyfeiriodd at y cais i'r Cyngor yn gofyn iddo gymeradwyo'r cais yn amodol ar amodau.

Adroddodd y Rheolwr Grŵp Datblygu fod y cais yn ceisio ôl-ganiatâd am glinig a stiwdio ffisiotherapi o fewn uned ddiwydiannol bresennol. Mae safle'r cais yn Ystâd Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr sydd wedi'i ddyrannu a'i ddiogelu ar gyfer cyflogaeth defnydd B1, B2 a B8 gan bolisïau REG1(2) a REG2 o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig Pen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd wrth y Cyngor fod y safle wedi'i adael yn ddiweddar gan Heddlu De Cymru a ddefnyddiodd yr ardal fel gofod swyddfa B1. Roedd y safle bellach yn cael ei ddefnyddio gan yr ymgeisydd fel stiwdio a chlinig ffisiotherapi heb ganiatâd cynllunio.

Dywedodd wrth y Cyngor fod y cais yn ailgyflwyniad o gais blaenorol ar gyfer "newid defnydd o swyddfa ategol i Ddosbarth D1 (clinig ffisiotherapi)" dan gyfeirnod cynllunio P/17/44/FUL a'i fod wedi'i wrthod ar 24 Ebrill 2017.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn dueddol o beidio ag eisiau gwrthod y datblygiad a bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau yn cael pwerau llawn i gyhoeddi hysbysiad penderfynu mewn perthynas â'r cynnig yn amodol ar yr amodau yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau.

96. STRATEGAETH DYSGU A DATBLYGU AELOD ETHOLEDIG

Ceisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethau gymeradwyaeth yr Aelod Etholedig Strategaeth Dysgu a Datblygu.

Dywedodd fod adolygiad bwrdd gwaith o'r Strategaeth wedi'i gynnal i sicrhau ei bod yn addas at y diben ac wedi'i diweddaru i adlewyrchu nifer o ffactorau sydd wedi newid ers cymeradwyo'r Strategaeth wreiddiol. Dywedodd wrth y Cyngor fod Aelodau Etholedig newydd wedi dynodi bod angen newidiadau i'r gwaith o ddarparu Gweithgareddau Datblygu Aelodau a chynigiwyd rhannu'r Strategaeth yn 5 cam: Gweinyddu; yr Hanfodion; Swyddogaethau Craidd; Nodi anghenion y Cynghorwyr unigol a Datblygiad Parhaus.

Adroddodd ar gynnig fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn categoreiddio pynciau datblygiad aelodau fel a ganlyn: Hanfodol; Argymhellir ac Opsiynol. Dywedodd hefyd wrth y Cyngor am gynnig i wneud defnydd gwell o gyfleusterau e-ddysgu yn y rhaglen datblygu aelodau.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig.

97. ADRODDIADAU GWYBODAETH I'W NODI

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethau adroddiad gyda'r nod o lywio Adroddiadau Gwybodaeth y Cabinet a gyhoeddwyd ers y cyfarfod diwethaf.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r dogfennau a restrir yn yr adroddiad:-

| Teitl | Dyddiad Cyhoeddi |
|---|---|
| Penderfyniad Dirprwyedig Brys | 23 Tachwedd 2017 |
| Ymateb i Adroddiad Drafft Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru | 23 Tachwedd 2017 |

98. DERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL I'R CABINET

**Cwestiwn gan y Cynghorydd A Hussain i'r Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol**

*"Nododd data Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain (BPCA), yn 2015-16, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi delio â mwy o broblemau llygod y pen nag unrhyw awdurdod arall ym Mhrydain. Y llynedd bu gostyngiad o 4% ym Mhen-y-bont yn y galwadau plâu o gymharu ag Awdurdodau eraill ledled y DU, sy'n ymddangos fel cam yn y cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, dros yr wythnosau diwethaf mae nifer y llygod mawr ar draws y Fwrdeistref Sirol i'w weld yn cynyddu, gan gynnwys yn fy ward i, Pen-y-fai. Er bod llawer o'r llygod mawr sy'n cael eu gweld yn rhai marw, a all yr Aelod Cabinet esbonio beth sy'n cael ei wneud i leihau'r boblogaeth llygod mawr ar draws y Fwrdeistref Sirol a pha gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod iechyd a lles y preswylwyr ddim yn cael ei effeithio gan y llygod mawr hyn?"*

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol**

Mae'r cyfle i ddarparu rhagor o wybodaeth am safbwynt Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi delio â mwy o broblemau llygod mawr y pen nag unrhyw awdurdod arall ym Mhrydain yn 2015-2016 yn rhywbeth rwy'n siŵr y bydd aelodau am ei weld.

Dylid nodi fod arolwg BPCA yn cydnabod cyfyngiadau o ran cymharu gweithgarwch Rheoli Plâu awdurdodau lleol gwahanol. Yn wahanol i 92% o awdurdodau yn y DU, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu gwasanaeth am ddim ar gyfer plâu o bwys iechyd y cyhoedd, gan gynnwys llygod mawr. Mae'n wybodaeth gyffredin fod taliadau rheoli plâu mewn awdurdod lleol yn lleihau nifer y triniaethau mae'r Cyngor yn eu cynnal. Mae ffigurau BCPA felly yn debygol o fod yn adlewyrchiad o'r polisi prisio mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn ei weithredu yn hytrach na chymhariaeth go iawn o faint y problemau llygod mawr yn Awdurdodau Lleol y DU.

Dylid nodi hefyd nad yw nifer fawr o Awdurdodau Lleol y DU yn darparu Gwasanaethau Rheoli Plâu mwyach ac felly nid yw arolwg BPCA yn cynnwys unrhyw wybodaeth o'r ardaloedd hynny na chan gwmnïau Rheoli Plâu preifat.

O ystyried hyn, a'r ffaith fod BPCA wedi nodi nad oedd eu ffigurau'n gyflawn, mae'n annheg dweud bod gan Ben-y-bont broblem benodol. Mae barn Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain yn tynnu sylw at waith da Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn delio gyda phlâu yn ogystal â'r ffaith, yn wahanol i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig gwasanaeth am ddim o hyd

y mae preswylwyr yn ei ddefnyddio. Mae cadw'r gwasanaeth am ddim hwn, yn wyneb cefndir o doriadau ariannol, yn gam cadarnhaol sy'n diogelu iechyd a lles preswylwyr yr effeithir arnynt yn negyddol gan y boblogaeth llygod mawr.

Cyfeirir yr holl alwadau sy'n ymwneud â phlâu mewn aneddiadau preswyl at Mitie Pest Control, sef darparwr gwasanaeth dan gontract y Cyngor. Yn ystod cyfnodau cymharol dros y 4 blynedd ddiwethaf, mae nifer y galwadau sy'n ymwneud â phlâu wedi aros ar lefel gyson, felly ni allaf ddweud beth mae awdurdodau lleol eraill wedi'i wneud i gynyddu eu cyfraddau galw, ond mae ein ffigurau'n dangos bod preswylwyr yn ymgysylltu â'n gwasanaeth ar yr un gyfradd ag yn 2015-16.

Mewn perthynas â'r gwasanaeth Rheoli Plâu, mae'r contractwr yn cysylltu â swyddogion yn y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir i dynnu sylw at feysydd o bryder. Bydd swyddogion wedyn yn ymchwilio i broblemau gydag eiddo mewn cyflwr gwael, sy'n rhoi mynediad i lygod mawr, neu hefyd gasgliadau o sbwriel sy'n cynnig ffynhonnell fwyd. Mae gan swyddogion y pwerau i gyflwyno hysbysiadau ac erlyn am ddiffyg cydymffurfiaeth neu gyflawni gwaith lle bydd y gost yn cael ei godi ar y person a dderbyniodd yr hysbysiad; naill ai perchennog neu feddiannwr yr eiddo.

Mewn perthynas â galwadau, mae pob pryder a chŵyn yn cael eu logio'n uniongyrchol gan ein canolfan alwadau, sydd wedi arwain at swyddogion yn cymryd camau anffurfiol a ffurfiol yn gofyn i bobl drefnu i gael gwared ar sbwriel yn briodol sy'n dileu ffynonellau bwyd i lygod mawr gan helpu i reoli'r boblogaeth.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn rheoli'r Contract Abwyd Carthffosydd ar ran Dŵr Cymru, a gall swyddogion y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ofyn i hyn gael ei gyflawni mewn ardaloedd penodol lle mae adroddiadau neu alwadau wedi'u derbyn mewn perthynas â gweithgarwch llygod mawr. Mae hyn eto yn tynnu sylw at y camau cadarnhaol y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn eu cymryd a barn uchel sefydliadau eraill ar y Gwasanaeth Rheoli Plâu.

Rydym yn falch o fod yn un o'r cynghorau prin sydd o hyd yn darparu'r gwasanaeth hwn am ddim, a byddwn yn parhau i ymateb yn brydlon i bob galwad sy'n ymwneud â rheoli plâu.

Cwestiynodd y Cynghorydd Hussain, drwy gwestiwn ategol, a oes cynlluniau i wella ansawdd bagiau er mwyn atal plâu rhag torri i mewn iddynt a ph'un a fyddai'r gwasanaeth rheoli plâu yn parhau i gael ei ddarparu am ddim. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd nad oedd cynlluniau i newid y bagiau ac na fyddai plâu yn cael eu denu at fagiau pe bai trigolion yn eu rhoi mewn bagiau bwyd yn y cadis bwyd. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod y gwasanaeth rheoli plâu yn cael ei ddarparu am ddim ac nad oedd cynlluniau yn y broses gyllidebol i newid hynny.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd J Radcliffe i'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar**

*"Pa asesiad y mae'r awdurdod – naill ai'n annibynnol neu fel rhan o gydweithredu rhanbarthol – wedi'i gynnal (neu'n bwriadu ei gynnal) o oblygiadau ymchwil diweddar y British Medical Journal (http://bmjopen.bmj.com/content/7/11/e017722) ar y cysylltiad rhwng toriadau gofal cymdeithasol a chyfraddau marwolaeth mewn cartrefi gofal yn Lloegr, a sut bydd yr awdurdod yn defnyddio'r ymchwil hwn i gynllunio cyllideb a dylunio gwasanaeth?"*

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, J Radcliffe**

Dylid nodi bod yr ymchwil hwn yn ymwneud â chartrefi gofal yn Lloegr, yn hytrach na Chymru, a bod yr erthygl ei hun yn cyfeirio at gyfyngiadau a bod angen ymdrin â'r mater yn ofalus ar lefel boblogaeth is. Felly:

- Gallai fod amrywiadau ar lefel leol na nodwyd gan yr astudiaeth (h.y. nid yw'n anochel bod y patrwm hwn yn cael ei ailadrodd mewn unrhyw ALI neu yn wir yng Nghymru o gymharu â Lloegr)
- Gallai fod ffactorau eraill y tu hwnt i'r rhai a ystyrir yn y dadansoddiad hwn (h.y. gallai llawer o ffactorau yn ogystal ag amodau macro-economaidd gael dylanwad, gan gynnwys, nodweddion go iawn y boblogaeth gan gynnwys yr oedran mae pobl yn dechrau defnyddio cartrefi gofal a chartrefi nyrsio, y gymysgedd gwryw/benyw, Anabledd Dysgu ac ati).

Mae yna esboniad symlach i'r canfyddiad a nodwyd gan y Cynghorydd Radcliffe: mae pobl hŷn yn mynd i ofal preswyl yn hwyrach yn eu bywydau ac maent yn aros yna am gyfnod byrrach.

Mae pwysau o ganlyniad i ofal cymdeithasol yn parhau i fod yn risg i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn y tymor canolig i'r hirdymor. Mae'r heriau ehangach sy'n wynebu'r maes gofal cymdeithasol yn hysbys; o ganlyniad i newidiadau demograffig mae gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn wynebu galwadau cynyddol a mwy cymhleth. Mae mwy o bobl yn cael eu diagnosio ag un neu fwy o gyflyrau iechyd y gellir eu hatal ac mae pobl hŷn fregus yn dioddef o fwy o anghenion cymhleth. Gellir dadlau bod yr heriau sylweddol hyn y mae gofal cymdeithasol yn eu hwynebu yn golygu bod angen meddwl o'r newydd am gyllid a modelau gwasanaeth newydd.

Mae Strategaeth Gomisiynu'r Bae Gorllewinol (a ddatblygwyd gyda'r Awdurdod Lleol rhanbarthol a phartneriaid iechyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriaeth iechyd a gofal cymdeithasol annibynnol, y Sefydliad Gofal Cyhoeddus) yn canolbwyntio ar newid mewn gofal o wasanaethau preswyl i gynnydd mewn gwasanaethau yn y gymuned gyda chyflwyno Gofal Canolraddol ac ati.

Mae hyn yn unol â deddfwriaeth yng Nghymru, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaeth i rym yn Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a thrawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru; mae Atal ac Ymyrraeth Gynnar yn egwyddor allweddol o hyn – gan gynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned i leihau anghenion critigol.

Felly, mae mwy o bobl yn mynd i ofal preswyl/gofal nyrsio yn hytrach am gyfnodau byrrach gydag anghenion mwy cymhleth. Ffocws y newid yw canlyniadau gwell i bobl hŷn a'u galluogi i fod yn fwy annibynnol yn hirach, ond yn y mwyafrif helaeth o achosion mae gofal a chymorth gartref hefyd yn rhatach na gofal preswyl. Ni allwn barhau â'r 'hen fodelau' oherwydd nid ydynt yn gynaliadwy yn ariannol, felly erbyn hyn mae mwy o wasanaethau ar gael i'r gymuned. Mae hyn yn well i unigolion hefyd yn gyffredinol. Fodd bynnag, os asesir bod angen lleoliad cartref gofal ar unigolyn, bydd yr ALI neu'r BI yn trefnu'r lleoliad angenrheidiol ac yn talu amdano.

Gofynnodd y Cynghorydd Radcliffe, o ystyried yr ansicrwydd i'r Cyngor o ran cydweithredu â'r maes iechyd, a oedd trafodaethau wedi'u cynnal gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf ar gyllidebau wedi'u cronni ar gyfer nyrsys cymdeithasol cofrestredig. Dywedodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar y bydd y pwysau'n parhau i gael ei roi ar Lywodraeth Cymru, sydd wedi rhoi gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg yn uchel ar ei hagenda am fwy o gyllid. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles wrth y Cyngor fod gan y Cyngor Reolwyr Integredig sy'n gweithio gyda nyrsys; fodd bynnag, mae diffyg nyrsys cofrestredig yn gweithio mewn cartrefi cofrestredig. Cadarnhaodd fod gwaith yn mynd rhagddo i alinio cyllidebau y mae angen iddynt fod yn eu lle erbyn Ebrill 2018.

99. <u>HYSBYSIAD O GYNNIG A GYNIGIR GAN Y CYNGHORYDD A WILLIAMS</u>

Cynigiodd y Cynghorydd A Williams yr Hysbysiad o Gynnig canlynol.

"Bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

Yn cydnabod pryder cyhoeddus ynghylch baw cŵn yn y Fwrdeistref Sirol.

Yn nodi y gall baw cŵn gael goblygiadau iechyd difrifol, gan gynnwys tocsocariasis a all achosi heintiau sy'n arwain at fadredd a thrychiadau.

Yn cymeradwyo ymdrechion Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i weithredu rheolau baw ci llymach drwy'r ymgyrch 'Ewch â'ch C*CHU 'da chi!'.

Yn galw ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gyflwyno cynllun tebyg sy'n cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus a fyddai yn:

- Gwahardd cerdded cŵn mewn ysgolion, ardaloedd chwarae plant a chaeau chwarae sydd wedi'u marcio a gynhelir gan y Cyngor.
- Annog perchnogion cŵn i gadw ci ar dennyn bob amser mewn mynwentydd a gynhelir gan y Cyngor.
- Annog perchnogion cŵn i lanhau baw eu cŵn ar unwaith a'i waredu'n briodol.
- Annog perchnogion cŵn i gario bagiau ar gyfer codi baw ci bob amser.
- Annog perchnogion cŵn i ddilyn cyfarwyddyd swyddogion awdurdodedig i roi ci ar dennyn.
- Grymuso swyddogion awdurdodedig i godi cosb gynyddol ar berchnogion cŵn anghyfrifol sy'n dorri'r rheolau".

Eiliwyd yr Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd KJ Watts.

Mynegodd yr Aelod Cabinet Cymunedau gydymdeimlad â bwriad yr Hysbysiad o Gynnig, gan fod gweithredu yn erbyn baw cŵn yn un o addewidion allweddol y maniffesto. Dywedodd, er mwyn gweithredu Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus fel y cynigir yn yr Hysbysiad o Gynnig, y bydd angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol yn gyntaf. Dywedodd hefyd, gan fod y mater yn swyddogaeth i'r Cyngor, y byddai angen archwilio pob llwybr sydd ar gael i'r Cyngor i gyflwyno mesurau cadarn er mwyn mynd i'r afael ag ysbryd yr Hysbysiad o Gynnig gwreiddiol a byddai angen cyflwyno adroddiad mewn cyfarfod Cabinet yn y dyfodol. Dywedodd wrth y Cyngor hefyd y byddai angen ymgysylltu â phartneriaid allweddol ac y byddai angen i'r adran Graffu ystyried y cynigion hefyd.

Wrth eilio'r cynnig a wnaed gan yr Aelod Cabinet Cymunedau, dywedodd y Cynghorydd JP Blundell y byddai angen ariannu gweithrediad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus. Bydd hefyd angen ymgysylltu â phartneriaid allweddol er mwyn gorfodi Gorchymyn o'r fath a byddai angen edrych ar brofiadau awdurdodau lleol eraill sydd wedi gweithredu Gorchmynion.

Ar ôl cael sicrwydd gan yr Aelod Cabinet Cymunedau, tynnodd y Cynghorydd A Williams yr Hysbysiad o Gynnig yn ôl, a eiliwyd gan y Cynghorydd KJ Watts.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Y byddai'r Hysbysiad o Gynnig gwreiddiol yn cael ei dynnu'n ôl a bod diwygiad yn cael ei wneud y cynhelir ymgynghoriad i archwilio pob llwybr sydd ar agor i'r Cyngor i gyflwyno mesurau cadarn er mwyn mynd i'r afael ag ysbryd yr Hysbysiad o Gynnig gwreiddiol a bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet gan fod hyn yn swyddogaeth i'r Cabinet. Byddai angen ymgysylltu â phartneriaid allweddol a chyflwyno adroddiad ar y cynigion ar y Blaen-Raglen Waith Craffu.

100. HYSBYSIAD O GYNNIG A GYNIGIR GAN Y CYNGHORYDD DG HOWELLS

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl.

101. EITEMAU BRYS

Nid oedd dim materion brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.38 pm